Saesneg isod/English below

CYNGOR CYMUNED LLANEGRYN

**Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth 18fed Tachwedd 2025 am 7.30yh yn y Neuadd, Llanegryn.**
Presennol; Cyng. Alwyn Roberts, William T Davies, Eurgain Haf Davies, Rhys Williams, Lona Harris, WRP Jones ynghyd a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Alwyn Roberts.

Roedd ymddiheuriad gan Cyng Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd)
Nid oedd unrhyw **ddatganiadau o ddidordeb** am faterion ar yr agenda.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

**Aethpwyd ymlaen i groesawu Patrick Roberts a Sharon Jones, cynrychiolwyr o BCUHB i son am Ysbyty Gymunedol Tywyn.** Soniwyd am y cefndir, a rhoddwyd diweddariad am ward Dyfi, sydd wedi cau ers Ebrill 2023. Nid oedd penderfyniad wedi ei wneud eto am y dyfodol, ac roeddynt yn gwahodd mewnbwn. Pwysleisiodd y Cynghorwyr mor bwysig cael buddsoddiad gan BCUHB yn yr ardal, a cheisio goresgyn y problemau er mwyn agor y ward. Roedd pryder am yr amser teithio o'r ardal, gan gofio hefyd bod gwasanaeth yr Ambiwlans Awyr ymhellach o'r ardal erbyn hyn. Pwysleisiwyd ceisio cael cyswllt efo'r Brifysgol o ran staffio.

Croesawyd hefyd Jane a Janet o'r Tywyn Hospital Action Group, a darparwyd llawer iawn o dystiolaeth ganddynt o ran pwysigrwydd buddsoddiad yn yr Ysbyty, y staff sydd ar gael yn lleol, a'r angen i wneud llawer gwell ymdrech er mwyn dyfodol yr ysbyty. Diolchwyd am gyfraniad pawb, ac aethpwyd ymlaen a gweddill y cyfarfod.

3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 29ain o Fedi** ar gynnig Cyng WRP Jones a'i eilio gan Cyng Rhys Williams.

4. **Materion yn codi.**

a) **Cronfa 'Gwynedd Ni'** - adroddwyd y diweddaraf, ac roedd balchder fod y gwaith wedi mynd ymlaen a'r gwelliant oedd y grant yma wedi ei wneud i'r ardal, sef gwelliannau i'r toiledau ym mhentref Llanegryn, a'r gwelliant/taclusrwydd y safle beics ger Cefn Coch. Ar gynnig Cyng Eurgain Haf Davies a'i eilio gan Cyng Lona Harris a chytundeb pawb, pendefynwyd i dalu amcangyfrif M A Greaves ar gyfanswm o £6,408.00, ac Owain ag Arwyn am £550. Diolchwyd yn fawr iawn i bawb oedd wedi cynorthwyo efo hyn.

b) **Ystyried trefniadau i gael Cyngorydd o'r newydd yn dilyn ymddiswyddiad Cyng Catrin Rutherford –** adroddodd y Clerc am y datblygiadau. Roedd gwahoddiad wedi mynd allan am enw i'w gyfethol, sef hysbyseb ger y Neuadd yn Lanegryn, ac ar wefan y Cyngor Cymuned, gyda dyddiad cau 31ain Hydref. Ni chafwyd enwau i law.

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd ar gynnig Cyng Rhys Williams a'i eilio gan Cyng WRP Jones a chytyndeb unfrydol, i enwebu Shan Jones. Byddai'r Clerc yn cysylltu a hi.

c) **Cynllun trafnidiaeth cymunedol** – adroddwyd y diweddaraf am y prosiect yma.

d) **Parcio tu allan yn Neuadd yn Llanegryn**, gofynnwyd i'r Clerc ymchwilio union berchnogaeth y tir tu allan i'r Neuadd.

## 5. Materion Cynllunio

**NP5/64/86J** - codi storfa dail (cais diwygiedig i'r un a wrthodwyd o dan gyfeirnod NP5/64/86H) - Fferm Nantycynog, Llanegryn LL36 9LN.

Cadarnhawyd fod y cais yma wedi ei ddosbarthu i'r Cynghorwyr ers 18.10.25. Nid oedd gwrthwynebiad.

## 6. Materion Cyllid.

a) **Cyfrifon 2024-25** - nid oedd datblygiad pellach.

Cadarnhwyd balansau'r banc ar 22.10.25, sef Cyfri Cyfredol £6667.52 a Cyfrif Business Manager £6522.30.

Dosbarthwyd cyllideb ddrafft a phenderfynwyd ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn 2026-27.

**Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd ar gynnig Cyng Eurgain Davies a'i eilio gan Cyng Lona Harris i gadw y praesept ar yr un swm ar gyfer 2026-27 , sef £7850.**

b) **Anfonebau i'w talu**.

Ar gynnig Cyng W T Davies a'i eilio gan Cyng WRP Jones cytunwyd ar y canlynol;

- Yswiriant y Cyngor am 2025-26 am £280

c) **Ystyried unrhyw geisiadau am arian.** Penderfynwyd peidio cyfrannu i'r ceisiadau canlynol oedd i law

- Ambiwlans Awyr Cymru
- Eisteddfod yr Urdd Mon – Mai 2026.

## 7. Gohebiaeth.

a) Nodwyd dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru – byddai'r Clerc yn dosbarthu.

b) Nodwyd gohebiaeth ynglyn a draen yn gorlifo ger mynedfa'r llwybr sy'n arwain at y maes chwarae. Roedd ymateb gan Gwyn Evans i law, ac roedd y broblem wedi ei datrys.

c) Cyngor Gwynedd – nodwyd wybodaeth am waith yr Adran Briffyrdd yn yr ardal.

d) Stratgaeth Gwastraff Cyngor Gwynedd – byddai'r Clerc yn dosbarthu yr holiadur

**e)** Adroddodd y Clerc gais i gael plac yn yr Ardd Goffa ar y wal yno. Cytunwyd gyda'r pris o £65, sydd yn unol a phrisiau Cyngor Gwynedd. Byddent yn maint A5 (landscape) Nodwyd y byddai rhaid trefnu cyfarfod ar y safle.

Gwelwyd fod angen rhoi cyswllt i'r gwybodaeth am sut i gysylltu ynglyn a'r Ardd Goffa ar wefan y Cyngor.

**f)** Nodwyd ddiweddariad ar y broses adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri gan y Parc Cenedlaethol.

8. **Unrhyw fater arall.**

- Gofynnwyd a allai'r Cyngor ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i fynegi pryder am yr oedi gyda'r sgaffaldiau sydd ar hen Westy Corbett yn Tywyn.
- Cafwyd adroddiad gan Cyng Eurgain Davies yn dilyn Pwyllgor y Neuadd. Cytunwyd cadw at yr enw 'Neuadd Egryn' a bod angen arwydd ger Cefn Coch o dan yr arwydd presennol.
- Roedd pryder am gyflwr y ffordd ger mynydd Castell. Roedd angen map i ddangos yr union safle
- Roedd angen son wrth Gyngor Gwynedd bod y gwrych ger yr hen orsaf heddlu angen ei dorri.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y NEUADD LLANEGRYN NOS LUN 26ain Ionawr 2026 , 7.30y.h.**

Minutes of the Council meeting held on Tuesday 18th November 2025 at 7.30pm in the Hall, Llanegryn.

Present; Cllr. Alwyn Roberts, William T Davies, Eurgain Haf Davies, Rhys Williams, Lona Harris, WRP Jones together with Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Alwyn Roberts.

There was an apology from Cllr Bethan Lawton (Gwynedd Council)

There were no declarations of interest about issues on the agenda.

2. It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on an issue on the Agenda.

The meeting went on to welcome Patrick Roberts and Sharon Jones, representatives from BCUHB to talk about Tywyn Community Hospital. The background was mentioned, and an update was given about the Dyfi ward, which has been closed since April 2023. A decision had not yet been made about the future, and they were inviting input. The Councilors emphasized

how important it is to have investment from BCUHB in the area, and to try to overcome the problems in order to open the ward. There was concern about the travel time from the area, also bearing in mind that the Air Ambulance service is further from the area by now. Emphasis was placed on trying to get in touch with the University in terms of staffing.

Jane and Janet from the Tywyn Hospital Action Group were also welcomed, and they provided a great deal of evidence in terms of the importance of investment in the Hospital, the staff available locally, and the need to make a much better effort for the future of the hospital.

Everyone was thanked for their contribution.

3. The minutes of the meeting held on the 29th of September were confirmed on the proposal of Cllr WRP Jones and seconded by Cllr Rhys Williams.

4. Matters arise.

a) 'Gwynedd Ni' Fund - the latest was reported, and there was pride that the work had gone ahead and the improvement this grant had made to the area, namely improvements to the toilets in the village of Llanegryn, and the improvement/tidy of the bike site near Cefn Coch. On the proposal of Cllr Eurgain Haf Davies and seconded by Cllr Lona Harris and everyone's agreement, it was decided to pay the estimate of M A Greaves at a total of £6,408.00, and Owain and Arwyn for £550. A big thank you to everyone who helped with this.

b) To consider arrangements to get a new Councilor following the resignation of Cllr Catrin Rutherford - the Clerk reported on the developments. An invitation had gone out for a name to be co-opted, namely an advertisement near the Hall in Lanegryn, and on the Community Council's website, with a closing date of 31st October. No names were received.

Following discussion, it was decided on the proposal of Cllr Rhys Williams and seconded by Cllr WRP Jones and unanimous agreement, to nominate Shan Jones. The Clerk would contact her.

c) Community transport plan - the latest on the project was reported here.

d) Parking outside the Hall in Llanegryn, the Clerk was asked to investigate the exact ownership of the land outside the Hall.

5. Planning Matters

NP5/64/86J - erecting a manure store (amended application to the one refused under reference NP5/64/86H) - Nantycynog Farm, Llanegryn LL36 9LN.

It was confirmed that this application had been distributed to the Councilors since 18.10.25.

There was no opposition.

6. Finance Matters.

a) Accounts 2024-25 - there was no further development.

The bank balances were confirmed on 22.10.25, namely Current Account £6667.52 and Business Manager Account £6522.30.

A draft budget was distributed and the budget for the year 2026-27 was decided.

Following discussion, it was decided on the proposal of Cllr Eurgain Davies and seconded by Cllr Lona Harris to keep the precept at the same amount for 2026-27, namely £7850.

b) Invoices to be paid.

On the proposal of Cllr W T Davies and seconded by Cllr WRP Jones the following was agreed;

• Council Insurance for 2025-26 for £280

c) Consider any requests for money. It was decided not to contribute to the following requests that were received

• Wales Air Ambulance

• Urdd Mon Eisteddfod – May 2026.

7. Correspondence.

a) Un Llais Cymru training dates were noted - the Clerk would distribute.

b) Correspondence was noted regarding an overflowing drain near the entrance to the path that leads to the playground. A response from Gwyn Evans was received, and the problem had been resolved.

c) Gwynedd Council - information was noted about the work of the Highways Department in the area.

d) Gwynedd Council's Waste Strategy - the Clerk would distribute the questionnaire

e) The Clerk reported a request to have a plaque in the Garden of Remembrance on the wall there. Agreed with the price of £65, which is in line with Gwynedd Council prices. They would be A5 size (landscape) It was noted that a meeting would have to be organized on site.

It was seen that it was necessary to provide a link to the information about who to contact regarding the Memorial Garden on the Council's website.

g) An update was noted on the Eryri Local Development Plan review process by the National Park.

8. Any other matter.

• It was asked if the Council could write to Gwynedd Council to express concern about the delay with the scaffolding on the old Corbett Hotel in Tywyn.

• There was a report from Cllr Eurgain Davies following the Hall Committee. It was agreed to keep the name 'Neuadd Egryn' and that a sign is needed near Cefn Coch below the current sign.

• There was concern about the condition of the road near Castell mountain. A map was needed to show the exact site

• It was necessary to mention to Gwynedd Council that the hedge near the old police station needed to be cut.

DATE OF NEXT MEETING; LLANEGRYN HALL MONDAY 26th January 2026, 7.30pm.